| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Yr Arweinydd/Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ynglŷn â Pherfformiad Y Cynllun MAWR** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ynglŷn â pherfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) a'i bartneriaid wrth gyflawni Rhan I y Cynllun MAWR 2011-14. Mae'r adroddiad yn cynnwys 'Adroddiad Eithriadau Cryno', a gefnogir gan benodau manylach ynglŷn â phob un o wyth deilliant y Cynllun MAWR.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er mwyn darparu gwybodaeth yn ymwneud â chyflawni'r Cynllun MAWR.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad ac yn cynnig sylwadau yn unol â'i bwerau i fonitro cyflawniad y Cynllun a'i ddeilliannau.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1 Cynllun MAWR Sir Ddinbych: 2011-14 yw'r Cynllun sy'n ysgogi gwaith Partneriaethol yn Sir Ddinbych. Mae'r Cynllun MAWR yn cael ei gyflawni ar y cyd rhwng asiantaethau mewn partneriaeth â'i gilydd. Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n atebol am Y Cynllun MAWR, a'r bwrdd hwnnw sy'n dal yr asiantaethau sy'n ffurfio'r bartneriaeth (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), y Trydydd Sector, Heddlu GC, Gwasanaeth Tân ac Achub GC, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Sir Ddinbych[1]) i gyfrif am roi camau gweithredu ar waith wrth gyflawni'r Cynllun MAWR a'r wyth deilliant sy'n perthyn iddo.

4.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am eithriadau i bob un o'r deilliannau, gan alluogi aelodau i ganolbwyntio ar y mannau gwan.

---

[1] Noder nad yw'r rhestr hon yn un gyflawn

Mae’r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â’r hyn sy’n mynd yn dda. Mae gwybodaeth fanylach ynglŷn â phob deilliant ar gael gan y Tîm Partneriaethau a Chymunedau. Mae’r Adroddiad Perfformiad sydd wedi ei atodi yn rhoi manylion ynglŷn â pherfformiad partneriaid mewn perthynas â’r Cynllun MAWR yn ei gyfanrwydd. Mae ein gallu a’n profiad wrth adrodd ar Gynllun Integredig Sengl cyfan yn unigryw yng Nghymru.

4.3 Mae’r Adroddiad Perfformiad yn ddogfen dechnegol. Bydd y Bwrdd Partneriaethau Strategol yn rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad, yn gwneud y newidiadau angenrheidiol ac yn cymeradwyo’r gwerthusiadau cyffredinol ar 24 Gorffennaf 2013.

4.4 Mae’r dangosyddion llwyddiant y mae’r Cynllun MAWR yn ceisio’u gwella yn adlewyrchu problemau sy’n hir dymor ac yn anhydrin. Mewn rhai achosion, mae’r dangosyddion yn dangos gwelliant, tra bo eraill wedi aros fel ag yr oeddynt. Nid yw hyn yn destun pryder ac mae i’w ddisgwyl. Mae rhagor o gamau gweithredu wedi troi’n wyrdd ers cyflwyno’r adroddiad ger bron y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2012.

4.5 Mae gan y partneriaid bellach lai na blwyddyn i gyflawni Rhan I y Cynllun MAWR. Mae’r meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt a rhoi rhagor o sylw iddynt yn cynnwys:

- Gwella deilliannau i bobl y Rhyl, sydd yn parhau yn gyffredinol waeth na deilliannau gweddill y sir. Mae angen ymyrraeth o hyd (ac mae hynny eisoes wedi ei gynllunio) mewn perthynas â Chanol Tref y Rhyl.
- Parhau i ddarparu cymorth integredig i deuluoedd diamddiffyn.
- Mae angen bod rhagor o sylw’n cael ei roi i asesu’r anghenion mewn ardaloedd gweledig ac mae hynny’n dod i’r amlwg wrth gwblhau gwaith yn asesu anghenion cymunedau ar gyfer Rhan II y Prosiect MAWR.
- Cyfarch anghysonderau iechyd mewn ardaloedd difreintiedig a chynyddu’r nifer sy’n rhoi’r gorau i ysmygu.
- Mapio a gwella sgiliau sylfaenol plant, pobl ifanc ac oedolion.
- Parhau i gyflawni prosiectau’r BGLl i wella’r economi leol.

4.6 Ar y cyfan, nid oes unrhyw rwystrau mawr rhag cyflawni Rhan I y Cynllun MAWR a hyderwn y bydd yn cael ei gyflawni.

4.7 Mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill yn bwydo gwybodaeth i ddatblygiad Rhan II y Cynllun MAWR, a fydd yn dechrau yn 2014. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys: asesiadau o anghenion cymunedau; ymgysylltu ac ymgynghori; cynllunio camau gweithredu a strwythurau partneriaethol; a chynllunio cynnyrch.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd â'r Cynllun MAWR; mae synergedd rhwng saith blaenoriaeth y cynllun corfforaethol ac wyth deilliant y Cynllun MAWR.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r BGLl yn atebol am y Cynllun MAWR ac mae Bwrdd Partneriaeth Strategol mewn bodolaeth sy'n gyfrifol am ei gyflawniad. Caiff y Cynllun MAWR ei ariannu gan sefydliadau sydd mewn partneriaeth â'i gilydd yn Sir Ddinbych (y sector cyhoeddus) o fewn cyllidebau presennol/craidd a thrwy gyfrwng comisiynu craff.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

7.1 Cwblhawyd asesiad o'r anghenion cydraddoldeb pan ddatblygwyd Rhan I y Cynllun MAWR, ac mae hyn wedi cael ei ddyfynnu'n genedlaethol yng nghyhoeddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) "Cydraddoldeb a chynlluniau cyfan ¦ Nodyn cyngor ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru".

7.2 Mae'r fethodoleg sydd wedi bod yn cael ei defnyddio gan y partneriaid wrth gynnal asesiadau parhaus o anghenion cymunedau wedi cael ei addasu a'i gwella'n sylweddol, gan integreiddio cydraddoldeb trwy roi ystyriaeth i'r nodweddion hynny sy'n cael eu diogelu. Mae rhestr wirio i helpu partneriaid gyda'r fethodoleg newydd wedi cael ei llunio ar ffurf drafft (gyda chefnogaeth gan Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a'n bwriad ni yw bod yn esiampl ledled Cymru yn hyn o beth.

**8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

8.1 Adroddir ynglŷn â pherfformiad wrth y partneriaid a'r byrddau partneriaeth yn rheolaidd a nhw sydd yn rheoli perfformiad.

8.2 Mae BIPBC ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad dwys ynglŷn â newidiadau i'r GIG. Bydd i hyn effaith ar y Cynllun MAWR, yn enwedig mewn perthynas â modelau o weithio ar y cyd, ffurfweddiad gwasanaethau a gofal iechyd ar sail ardal.

8.3 Cafodd y Cynllun MAWR ei ddatblygu yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori manwl a chadarn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Tra nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn perthyn i'r adroddiad hwn, mae'r Cynllun MAWR yn ddogfen strategol bwysig sy'n tanategu ansawdd darparu gwasanaethau mewn nifer o feysydd. Gallai unrhyw broblemau mewn perthynas â pherfformiad fod â goblygiadau i gyllid y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gallai ailstrwythuro o fewn rhai o'r asiantaethau sydd mewn partneriaeth â'i gilydd beryglu'r 'berchnogaeth' sydd dros gamau gweithredu o fewn y Cynllun MAWR, gan arwain at golli momentwm o ran eu cyflawni ac anawsterau o ran cael gafael ar adroddiadau perfformiad.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Erthyglau 6.3.1 a 6.3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**

Swyddog Perfformiad a Chynllunio
Ffôn: 07775 028155